# Pobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant

Dadansoddiad o'r duedd yng Nghymru[1]

**06 Mehefin, 2026**

[1] Defnyddiwyd ystadegau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar gyfer y dadansoddiad hwn. Gellir dod o hyd i'r data am NEET yn https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae sectorau adeiladu ac ôl-osod Cymru yn wynebu trobwynt allweddol sy'n bygwth ein gallu i gyflawni'r tai fforddiadwy y mae ar Gymru eu hangen.

Er mwyn bodloni'r galw, mae ar Gymru angen 2,200 o weithwyr adeiladu yn flynyddol, ac eto mae'r gweithlu'n crebachu o tua 300 yn flynyddol[2]. Yn y sector ôl-osod, dim ond 87% o'r galw y mae'r cyflenwad gweithwyr presennol yn ei ddigoni. Rhagwelir y bydd hwn yn disgyn i 25% dros y ddegawd nesaf.[3]

Ar yr un pryd mae Cymru yn profi cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl ifanc sy'n ymddieithrio. Cynyddodd y gyfran o bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) i 17% yn y flwyddyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2025, tra bod yr amcangyfrif o nifer y bobl ifanc oedd yn NEET wedi cynyddu i 56,800 yn 2025 o 38,300 yn 2024 – cynnydd rhyfeddol o 48.3%.

Trwy gymharu â gweddill y Deyrnas Gyfunol gwelir bod y dirywiad diweddar yn benodol i Gymru. Amlyga ystadegau'r llywodraeth hefyd yr anghyfartaledd hirhoedlog mewn deilliannau NEET. Mae pobl ifanc anabl yn parhau yn sylweddol fwy tebygol o fod yn NEET na'u cymheiriaid nad ydynt yn anabl, gyda'r anghyfartaledd yn dod yn fwy amlwg ymhlith y rhai 19 i 24 oed.

Gyda mwy o grefftwyr yn gadael y diwydiant nag sy'n ymuno ag o, mae perygl y bydd hyn yn gwaethygu'r argyfwng tai - gan gryfhau'r effaith y mae prinder tai cymdeithasol yn ei gael ar iechyd, cyfoeth a chyfleoedd bywyd ar draws ein cenedl.

Ond mae hyn yn gyfle hefyd. Trwy gysoni ein nodau tai â strategaeth sgiliau ddewr, gallwn droi argyfwng cenedlaethol yn don o gyfle i'r degau o filoedd o bobl ifanc NEET yng Nghymru.

Mae'r cynnydd mewn pobl NEET, a pharhad yr anghyfartaledd o'u mewn, yn amlygu pwysigrwydd rhoi sylw ystyrlon trwy bolisïau i wella'r trosglwyddo i addysg, gwaith a hyfforddiant, ynghyd â chamau sy'n ymdrin â'r rhwystrau strwythurol a brofir gan grwpiau dan anfantais.

Gall Strategaeth Sgiliau Adeiladu Genedlaethol gysoni cyfraniad economaidd cymdeithasau tai a'u darpariaeth hyfforddiant gyda gallu'r sector Addysg Bellach a'r gadwyn gyflenwi breifat, gan roi sicrwydd tymor hir a map clir i symud allan o argyfwng tai i gyfnod o adfer.


[2] Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr

[3] Llywodraeth Cymru, Asesu'r gweithlu sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen ôl-osod mewn cartrefi yng Nghymru, https://www.llyw.cymru/asesur-gweithlu-syn-ofynnol-ar-gyfer-y-rhaglen-ol-osod-mewn-cartrefi-yng-nghymru

# 2. Tueddiadau sy'n Dod i'r Golwg Mewn Ymddieithriad Pobl Ifanc

Mae ystadegau diweddaraf y llywodraeth yn amlygu cynnydd sylweddol yn y gyfran o bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) yn y flwyddyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2025. Yn y flwyddyn yn dod i ben Rhagfyr 2025, roedd 17.0% o bobl ifanc 16 i 24 oed yn NEET. Yn dilyn mwy na degawd o ddeilliannau oedd yn gwella'n gyffredinol, mae'r cynnydd diweddaraf yma yn nodi symudiad trawiadol oddi wrth y llwybr blaenorol. Cynyddodd y gyfran o bobl ifanc sy'n NEET o 4.4 pwynt canran dros y pum mlynedd diwethaf, gan ddychwelyd i'r lefelau a welwyd ddiwethaf tua 2013.[4] Mae hyn yn awgrymu nad yw'r dirywiad a welwyd yn ystod 2025 yn debygol o gynrychioli amrywiad tymor byr ac yn hytrach ei fod yn adlewyrchu gwrthdroi nifer o flynyddoedd o gynnydd graddol.

**Siart 1: Tuedd NEET**




Mae'r duedd chwarterol yn Siart 1 yn dangos amodau sy'n newid yn gyflym dros gyfnod cymharol fyr, gyda chyflymder y newid yn 2025 yn amlwg arwyddocaol. Mae'r

[4] Er mwyn sicrhau bod y siart yn addas i un dudalen, mae'n cyflwyno data o 2016 ymlaen. Mae data cynharach ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-2025-html.

data'n dynodi dirywiad parhaus yn y gyfran o bobl ifanc a ddosberthir fel rhai NEET, gan gynyddu trwy gydol y flwyddyn cyn sefydlogi yn y chwarter olaf. Mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod llai o bobl ifanc yn ymwneud ag addysg, gwaith neu hyfforddiant dros y cyfnod, ac mae'r cynnydd parhaus dros amcangyfrifon blynyddol olynol yn awgrymu bod y dirywiad yn annhebygol o adlewyrchu un digwyddiad ynysig.

Cynyddodd y nifer o bobl ifanc a ddosberthir fel rhai NEET yng Nghymru o 38,300 yn y flwyddyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2024 i 56,800 yn y flwyddyn yn dod i ben Rhagfyr 2025, cynnydd o 18,500 (48.3%). Mae'r gyfradd arwyddocaol hon yn dangos graddfa'r cynnydd yn y nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

# 3. Anghyfartaledd ar draws Grwpiau yn y Boblogaeth

Dengys y data sydd ar gael anghyfartaledd parhaus, ac nid yw'r tebygolrwydd o fod yn NEET wedi cael ei ddosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth ifanc. Mae anghyfartaledd yn gysylltiedig ag anabledd ac, i raddau llai, daearyddiaeth.

Mae pobl ifanc anabl yn sylweddol fwy tebygol o gael eu dosbarthu yn NEET na'r rhai heb anabledd, gyda'r anghyfartaledd yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg ymhlith y rhai 19 i 24 oed. Mae pobl ifanc anabl (16 i 24 oed) tua phedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn NEET na'u cymheiriaid nad ydynt yn anabl (Tabl 1). Mae'r bwlch parhaus hwn yn awgrymu bod rhwystrau strwythurol yn parhau i effeithio ar gynnydd addysgol, cymryd rhan yn y farchnad lafur a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth priodol.

Tabl 1: Amcangyfrifon parhaus tair blynedd i bobl ifanc sy'n NEET yn ôl statws anabledd[5]

| | 2021-2023 | 2022-2024 | 2023-2025 |
|---|---|---|---|
| rhai 16 i 18 oed - anabl | 20% | 18% | 19% |
| rhai 16 i 18 oed - ddim yn anabl | 6% | 5% | 6% |
| rhai 19 i 24 oed - anabl | 39% | 38% | 40% |
| rhai 19 i 24 oed - ddim yn anabl | 9% | 8% | 9% |
| **rhai 16 i 24 oed - anabl** | **34%** | **33%** | **35%** |
| **rhai 16 i 24 oed - ddim yn anabl** | **8%** | **7%** | **8%** |

[5] Mae'r colofnau yn cynrychioli cyfnodau parhaus o dair blynedd yn dod i ben yn Rhagfyr 2023, Rhagfyr 2024 a Rhagfyr 2025 (er enghraifft, mae 2021-2023 yn cynnwys y cyfnod o'r flwyddyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2021 i'r flwyddyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2023).

Mae proffil oedran anabledd hefyd yn rhoi dealltwriaeth bwysig. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau NEET rhwng pobl ifanc anabl 16 i 18 oed a'r rhai 19 i 24 oed yn dynodi bod yr anghyfartaledd yn gwaethygu ar ôl addysg orfodol. Gall hyn adlewyrchu heriau yn gysylltiedig â throsglwyddo o addysg i astudiaeth bellach, prentisiaethau neu waith, lle mae'r peirianweithiau cefnogi yn aml yn mynd yn llai cynhwysfawr. Mae'r canfyddiadau, felly, yn amlygu pwysigrwydd cefnogaeth barhaus tu hwnt i addysg orfodol yn hytrach nag ymyraethau yn canolbwyntio ar grwpiau iau yn unig.

Mae'r amrywiadau rhanbarthol yn gymharol gymedrol ond maent yn amlwg ar draws Cymru. Gogledd Cymru gofnododd y gyfran uchaf o bobl ifanc oedd yn NEET, tra bod De Ddwyrain Cymru wedi cofnodi'r niferoedd isaf. Er bod y gwahaniaethau cyffredinol rhwng rhanbarthau yn gymharol fach, maent yn dangos nad yw ymddieithriad pobl ifanc yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal yn ddaearyddol.

Tabl 2: Amcangyfrifon parhaus tair blynedd i bobl ifanc sy'n NEET yn ôl rhanbarth

| | 2021-2023 | 2022-2024 | 2023-2025 |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 13.8 | 14.7 | 15.1 |
| Canolbarth a De Orllewin Cymru | 14.5 | 13.5 | 14.5 |
| De Ddwyrain Cymru | 12.0 | 11.2 | 13.4 |
| Cymru | 13.1 | 12.6 | 14.1 |

Roedd y gyfran o bobl ifanc nad oedd mewn addysg gwaith na hyfforddiant (NEET) yn amrywio yn ôl rhyw dros y cyfnod 2021 i 2024. Yn 2021, roedd y gyfradd NEET a amcangyfrifwyd ychydig yn uwch ymhlith gwrywod (16.5%) na menywod (15.5%). Yna gostyngodd y cyfraddau NEET i wrywod yn gyson i 12.4% erbyn 2024, oedd yn ostyngiad o 4.1 pwynt canran. Mewn cyferbyniad, disgynnodd y gyfradd NEET i fenywod o 15.5% yn 2021 i 11.0% yn 2023 cyn cynyddu'n gyflym i 15.2% yn 2024. O ganlyniad, er bod gan wrywod gyfraddau NEET uwch rhwng 2021 a 2023, roedd y sefyllfa wedi gwrthdroi yn 2024, pan oedd y nifer a amcangyfrifwyd o fenywod oedd yn NEET (15.2%) yn uwch na'r nifer o wrywod (12.4%) o 2.8 pwynt canran.

Tabl 3: Cyfran wedi ei hamcangyfrif o bobl ifanc oedd yn NEET yn ôl rhyw

| | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Menywod | 15.5 | 12.2 | 11 | 15.2 |
| Gwrywod | 16.5 | 15.2 | 15.1 | 12.4 |

# 4. Cymru mewn Cyd-destun

Cynyddodd y gyfran o bobl ifanc NEET yn sylweddol yng Nghymru mewn cymhariaeth â rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Gyfunol. Profodd Cymru gynnydd

cyflym yn y gyfran o bobl ifanc oedd yn NEET yn ystod 2025; arhosodd yr amcangyfrifon ar gyfer Lloegr, yr Alban a'r Deyrnas Gyfunol yn gymharol sefydlog dros yr un cyfnod. Awgryma hyn na ellir esbonio'r cynnydd yng Nghymru yn syml oherwydd amodau'r farchnad ehangach yn y Deyrnas Gyfunol.

Tabl 4: Cyfran y rhai 16 i 24 mlwydd oed oedd yn NEET ar draws y Deyrnas Gyfunol (%)[6]

| | 2024 | 2025 |
|---|---|---|
| Cymru | 12% | 17% |
| Lloegr | 14% | 13% |
| Yr Alban | 14% | 12% |
| Gogledd Iwerddon | 9% | 9% |
| Y Deyrnas Gyfunol | 13% | 13% |

# 5. Casgliad

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymddieithriad pobl ifanc wedi dod yn fwy difrifol yng Nghymru. Yn dilyn cyfnod maith o gyfraddau NEET yn gostwng, cynyddodd y gyfran o bobl ifanc nad oedd mewn addysg gwaith na hyfforddiant yn nodedig yn ystod y flwyddyn yn dod i ben yn Rhagfyr 2025, gan wyrdroi nifer o flynyddoedd o welliant. Adlewyrchir y cynnydd yn y gyfran a'r nifer a amcangyfrifir o bobl ifanc dan sylw.  Mae'r cynnydd hefyd yn amlwg dros amser ac yn digwydd ochr yn ochr ag anghyfartaledd parhaus a brofir gan bobl ifanc anabl.

[6] Sylwer: Mae'r ffigyrau'n cynrychioli'r ganran o rai 16 i 24 mlwydd oed oedd yn NEET yn y blynyddoedd yn dod i ben Rhagfyr 2024 a Rhagfyr 2025.